

## **Prifysgol Bangor - Canllawiau ar Wasanaeth Cyhoeddus Gwirfoddol**

- (i) Dylai cyflogeion sicrhau cydsyniad Prifysgol Bangor cyn ymgymryd â gwasanaeth cyhoeddus gwirfoddol. Yn achos unigolion o'r fath, fe rydd Prifysgol Bangor, yn ddarostyngedig i angenrheidiau'r gwasanaeth, absenoldeb arbennig gyda thal o ddim mwy na 18 niwrnod mewn unrhyw gyfnod o 12 mis i'r diben o gyflawni dyletswyddau megis:
  - (a) Ustus Heddwch,
  - (b) aelod o awdurdod lleol,
  - (c) aelod o unrhyw dribiwnlys statudol, ayb.
- (ii) Gellir cymryd unrhyw absenoldeb arbennig awdurdodedig ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus mewn dyddiau neu hanner-dyddiau. Dylid gwneud trefniadau ymlaen llaw gyda Phennaeth Adran y cyflogai (neu berson a enwebir ganddo/i) ym mhob achos o absenoldeb. Ni ddylid atal trefniant o'r fath yn afresymol.
- (iii) Gall cyflogai a benodir yn Gadeirydd (neu gyffelyb) corf cyhoeddus, a thrwy hynny'n gorfod ysgwyddo dyletswyddau ychwanegol, gael hyd at 6 niwrnod ychwanegol o absenoldeb gyda thal ar gyfer cyflawni dyletswyddau ychwanegol o'r fath, gan gynnwys unrhyw ddyletswyddau ynadol.
- (iv) Dylai cyflogeion sy'n cael absenoldeb arbennig gyda thal, yn ôl paragraffau (i) i (iii) uchod, ymrwmo i ad-dalu l Brifysgol Bangor, unrhyw daliadau lwfans presenoldeb a dderbynnir, ar wahân i daliadau neu lwfansau a delir yn benodol fel costau teithio a chynhaliaeth. Os yw'r lwfans presenoldeb yn uwch na chyflog diwrnod, yna dylid rhoi absenoldeb di-dâl. Ni thelir unrhyw gostau teithio na chynhaliaeth gan Brifysgol Bangor.